MAE GAN FUSNES CYMRU
**WELEDIGAETH WERDD**

Busnes Cymru | Business Wales



# CYFLWYNIAD I
# GYFRIFOLDEB ESTYNEDIG CYNHYRCHWYR


**03000 6 03000**

busnescymru.llyw.cymru
businesswales.gov.wales



UNDEB EWROPEAIDD
EUROPEAN UNION

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

**Cronfa Datblygu Rhanbarthol Ewrop**
**European Regional Development Fund**

## BETH YW CYFRIFOLDEB ESTYNEDIG CYNHYRCHWYR (EPR)?

Mae ymwybyddiaeth gynyddol o'r angen i leihau gwastraff pecynnau er mwyn lleddfu'r effaith ar yr amgylchedd, lleihau gwastraff adnoddau, costau rheoli gwastraff a phwysau, ac i symud at yr economi cylchol.

Er bod dyluniad olaf y diwygiadau dal i gael ei ddatblygu, nod EPR yw annog cynhyrchwyr pecynnau i leihau'r swm y maen nhw'n ei gynhyrchu a'i ddefnyddio, yn enwedig plastig, ac i lywio arloesedd nwyddau y gellid eu hailddefnyddio mwy, ac sy'n llai niweidiol i'r amgylchedd yng Nghymru a'r DU.

Ar hyn o bryd, mae Rheoliadau Ymrwymiadau Cyfrifoldeb Cynhyrchwyr (Pecynnu Gwastraff) 1997 (fel y'i diwygiwyd) yn gofyn i gynhyrchwyr pecynnau (busnesau sy'n cyflawni gweithgarwch pecynnu) fod yn gyfrifol am eu heffaith amgylcheddol. Ar hyn o bryd, mae 'cynhyrchwyr cymwys' ond yn talu rhan o'r gost o adfer ac ailgylchu'r pecynnau drwy brynu tystysgrifau neu dystiolaeth o ailgylchu, sydd fel arall yn cael eu galw'n Nodiadau Adfer Gwastraff Pecynnau (PRNau).

Bydd newidiadau i'r Rheoliadau Gwastraff Pecynnau yn golygu bod angen i fusnesau cymwys dalu 100% o'r costau sydd ynghlwm wrth reoli gwastraff eitemau y maen nhw'n ei roi ar farchnad y DU – gan gynnwys casglu ac ailgylchu gwastraff

**Mae Cyfrifoldeb Estynedig Cynhyrchwyr yn ehangu cyfrifoldeb cynhyrchwyr i ariannu rheoli gwastraff deunyddiau pacio**




Valpak, 2022

## Beth mae'n ei olygu i fy musnes?

Dan y diwygiadau arfaethedig, gall y costau i gynhyrchwyr cymwys fod rhwng 6 ac 20 gwaith yn fwy nag y maen nhw ar hyn o bryd[1], fodd bynnag o 2024 ymlaen, mae'n debygol y bydd ffioedd modiwlar yn cymell cynhyrchwyr i gynyddu nodweddion ailgylchadwy'r pecynnau.

Mae'n debygol y bydd y diwygiadau arfaethedig eraill yn gofyn am:

- **Rhagor o adrodd manwl:**
  - Dulliau adrodd newydd (Ionawr 2024)
  - Adrodd ar-lein bob mis
  - Categori adrodd eiddo cymysg ar sail ffibr i gael ei ychwanegu (2023)
- **Labeli ailgylchu deuol a gorfodol**
  - Cyfres gymeradwy o labeli, neu un label gorfodol e.e. 'modd ei ailgylchu' / 'dim modd ei ailgylchu'
  - Labelu ar gyfer y pecynnau darparu sylfaenol ac i gwsmeriaid (2024/5), yna'r ffilmiau
- **Gorfod dychwelyd cwpanau papur tafladwy**
  - Gofynnol i werthwyr mawr cwpanau papur llawn (2023), ac yna pob gwerthwr (2025)
  - Dim ots beth yw'r brand na'r cyrchfan prynu
- **System gydymffurfio newydd**
  - Un ai dull gweinyddwr sengl neu ar sail cynlluniau cydymffurfio

**Ffioedd modiwlar:** Dan y system Nodyn Adfer Pecynnau (PRN) presennol, nid yw'r ffi ar gyfer rhoi gwahanol fathau o becynnau ar farchnad y DU yn wahanol. Cynigir ffioedd modiwlar i leihau'r swm a delir ar becynnau y mae modd eu hailgylchu ac sy'n gweddu'n dda i'r seilwaith casglu gwastraff pecynnau ac ailgylchu presennol yng Nghymru. Bydd pecynnau i'r gwrthwyneb yn debygol o brofi ffioedd uwch.

Mae EPR yn canolbwyntio ar ba fusnesau sydd angen cyfrannu at gostau rheoli gwastraff pecynnau. Yn y system bresennol, mae busnesau gyda rolau gwahanol yn y gadwyn gyflenwi pecynnau yn talu am rannau gwahanol o gyfrifoldeb i ariannu'r broses o ailgylchu pecynnau ym marchnad y DU. Bydd hyn yn newid i greu cyfrifoldeb Un Parti ar gyfer holl gostau rheoli gwastraff pecynnau:

[1] Valpak, 2022: Packaging Legislation Reform. Available from: https://www.valpak.co.uk/more/guidance/packaging-legislation-reform

## Mae Cyfrifoldeb Estynedig Cynhyrchwyr yn ail ystyried pa fusnesau y mae gofyn iddynt gyfrannu at gostau rheoli gwastraff

### ~~Rhannu Cyfrifoldeb Cynhyrchwyr~~

~~Gwahanol rolau yn y gadwyn gyflenwi yn cael gwahanol gyfrifoldebau i brynu nodiadau ailgylchu gwastraff deunydd pacio/ariannu ailgylchu~~

| 6% | 9% | 37% | 48% |
|---|---|---|---|
| ~~Yn Wneuthurwyr~~ Deunydd Crai | ~~Yn Trosi'n~~ Becynnau | ~~Yn Llenwi Pecynnau~~ gyda Chynnyrch | ~~Cyflenwad i~~ Ddefnyddwyr Terfynol |

**100%**

**Cyfrifoldeb Unigolion ar gyfer holl gostau rheoli gwastraff deunyddiau pacio**

**Perchennog Brand y DU** Neu **Mewnforiwr Nwyddau Brand nad ydynt yn dod o'r DU** Neu **Marchnad Ar-lein y DU ar gyfer nwyddau nad ydynt yn dod o'r DU** Neu **Llenwr Pecynnau Cludo Heb eu Brandio** Neu **Cyflenwr nwyddau Heb eu Llenwi i Fusnesau Bach a Chanolig Eithriedig**

Valpak, 2022

### Beth allaf i ei wneud nawr?

Er bod dyluniad y diwygiadau i'r ddeddfwriaeth yn dal i gael ei gadarnhau ar hyn o bryd ac y bydd gan unrhyw ddiwygiadau gyfnod gweithredu, mae sicrhau bod eich busnes yn deall ei gyfrifoldebau a'r costau posibl nawr yn golygu y gallwch ystyried cyfleoedd ail-ddylunio a phecynnau amgen nawr, a thrafod y newidiadau a'r goblygiadau posibl gyda'ch cyflenwyr.

Mae Valpak yn cynnig Clinigau 1-i-1 i helpu i ddeall goblygiadau EPR ar eich busnes. Cysylltwch â Busnes Cymru i gael gwybod mwy.



## LLE GALLAF GAEL RHAGOR O WYBODAETH?

Llywodraeth y DU- Gwastraff pecynnu: newid system cyfrifoldeb cynhyrchwyr y DU ar gyfer gwastraff pecynnu

Cyfoeth Naturiol Cymru: Canllawiau ar gyfer cynhyrchwyr pecynnu

Valpak

Busnes Cymru - Addewid Twf Gwyrdd

